



Meddyginiaethau didrwydded ac 'all-drwydded'



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan** a **Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Defnyddio "arbennig" didrwydded a meddyginiaethau all-label'.

Hydref 2023



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan**:

Gwefan: www.cttcg.gig.cymru

E-bost: awttc@wales.nhs.uk

Ffôn: 029 218 26900



Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247](#)

Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma	2
Pam y mae meddyginiaethau didrwydded yn cael eu defnyddio?.....	7
A yw meddyginiaethau didrwydded yn gallu cael eu rhagnodi i blant? 8	8
Pa mor gyffredin yw meddyginiaethau didrwydded?	8
Darganfod mwy	10

Rydych chi wedi cael y daflen hon oherwydd bod rhywun wedi rhagnodi meddyginiaeth heb drwydded i chi, neu feddyginiaeth sy'n cael ei defnyddio mewn ffordd wahanol i'r hyn y mae'n ddweud yn y drwydded.



Fel arfer, mae gan feddyginiaeth sy'n cael ei gwerthu yn y DU **drwydded**. Mae'r **drwydded** yn dweud sut y dylai'r feddyginiaeth gael ei defnyddio.

Er enghraifft, bydd y **drwydded** yn dweud:



1. Pwy sy'n gallu cymryd y feddyginiaeth.



2. Beth sy'n gallu cael ei drin gan y feddyginiaeth.



3. Faint y dylai pobl ei gymryd.



4. A yw'n dabled, yn hylif, neu'n rhywbeth arall.



Nid oes gan **feddyginiaeth ddirwydded** drwydded y DU. Efallai bod ganddi drwydded mewn gwlad arall.



Gallai hefyd fod wedi'i gwneud yn arbennig. Mae hyn yn cael ei alw'n **feddyginiaeth arbennig**.



Weithiau mae meddyginiaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd wahanol i'r ffordd y mae'n dweud yn y **drwydded**. Mae hyn yn cael ei alw'n ddefnydd **all-drwydded**.

Er enghraifft:



- Mae'n cael ei defnyddio i drin salwch gwahanol i'r hyn y mae'r **drwydded** yn ei ddweud.



- Mae'n cael ei defnyddio i drin gwahanol grŵp o bobl i'r hyn y mae'r **drwydded** yn ei ddweud.



- Mae'r dos yn wahanol i'r hyn y mae'r **drwydded** yn ei ddweud.

Pan fydd y ddogfen hon yn dweud **meddyginaeth ddirwydded**, mae hyn yn cynnwys:



- meddyginaeth **arbennig**
- meddyginaeth **all-drwydded**
- meddyginaeth **ddirwydded**.

Pam y mae meddyginiaethau didrwydded yn cael eu defnyddio?



Weithiau mae rhywun yn rhagnodi **meddyginiaeth ddidrwydded** i rywun pan na fydd unrhyw beth arall ar gael. Rhesymau eraill yw:



- Does dim **drwydded** wedi cael ei osod eto.
- Nid yw'r **feddyginiaeth drwyddedig** ar gael.
- Mae ar y feddyginiaeth angen cael ei chymryd mewn ffurf wahanol. Er enghraifft, fel hylif yn lle tabled.
- Nid oes llawer o wybodaeth ynglŷn â thrin grŵp arbennig o bobl.

A yw meddyginiaethau didrwydded yn gallu cael eu rhagnodi i blant?



Ydyn. Efallai nad oes digon o astudiaethau wedi cael eu gwneud mewn plant i'r **feddyginiaeth** gael **trwydded**, yn enwedig ar gyfer salwch prin.

Gall **meddyginiaeth ddidrwydded** helpu oherwydd:



- Efallai ei bod yn gweithio'n well ar gyfer salwch y plentyn.
- Efallai ei bod yn haws i'w chymryd. Er enghraifft, fel hylif.
- Efallai ei bod yn fwy diogel.

Pa mor gyffredin yw meddyginiaethau didrwydded?



Mae nifer ohonyn nhw wedi cael eu defnyddio llawer o weithiau ac mae pobl yn gwybod pa effeithiau maen nhw'n eu cael.



Bydd y person sydd wedi rhagnodi'r **feddyginiaeth ddidrwydded** wedi meddwl yn ofalus a yw'n iawn ar eich cyfer chi, ac a ydyn nhw'n berygl o gwbl.



Byddan nhw'n gofyn i chi sut mae'r feddyginiaeth yn gweithio.



Dylech chi ddweud wrthyn nhw, neu wrth y cemist (sydd hefyd yn cael ei alw'n fferyllydd) a ydych chi'n cael unrhyw broblemau â'r feddyginiaeth.



Gallwch chi hefyd sôn am unrhyw broblemau wrth Gynllun y Cerdyn Melyn yng nghyfeiriad y wefan hon: <https://yellowcard.mhra.gov.uk>



Mae **Cynllun y Cerdyn Melyn** yn cadw golwg ar ddiogelwch meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio yn y DU.



Edrychwch ar ddyddiad defnyddio olaf eich **meddyginiaeth didrwydded** bob amser. Yn aml mae ganddyn nhw ddyddiad defnyddio olaf byr.



Gall gymryd wythnos neu ddwy i gael **meddyginiaethau didrwydded**. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o amser i'w harchebu.



Cymerwch y dos sydd wedi'i ragnodi ar eich cyfer bob amser.

Peidiwch â chymryd unrhyw feddyginiaeth sydd wedi cael ei difetha.

Darganfod mwy



Mae'r gwefannau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am **feddyginiaethau didrwydded**:



Gwybodaeth am Feddyginiaethau'r GIG
<https://www.nhs.uk/conditions/medicines-information>



Meddyginiaethau i Blant
<https://www.medicinesforchildren.org.uk>



Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru
<https://www.wmic.wales.nhs.uk>